| | |
|---|---|
| **Teitl yr adroddiad:**<br><br>***Report title:*** | Ymateb Rheolwyr i'r Adolygiad Annibynnol.<br><br>Adroddiad Adolygiad Diogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG. |
| **Adrodd i:**<br><br>***Report to:*** | Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad (QSE) BIPBC |
| **Dyddiad y Cyfarfod:**<br><br>***Date of Meeting:*** | 27 Hydref 2023 |
| **Crynodeb Gweithredol:**<br><br>***Executive Summary:*** | Fel rhan o'r ymyriad Mesurau Arbennig, comisiynwyd yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithredol y GIG gan Lywodraeth Cymru, i gynnal adolygiad ac arolygiad ansawdd a diogelwch ar y cyd o holl unedau cleifion mewnol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (MHLD). Cynhaliwyd arolygiadau ar y cyd yn ystod mis Ebrill a Mai 2023, a derbyniwyd yr adroddiad gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2023. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 8 argymhelliad.<br><br>Mynychodd cydweithwyr o'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG, y Pwyllgor QSE (Sesiwn Datblygu) ar 15 Medi 2023 i gyflwyno a thrafod canfyddiadau adroddiad yr adolygiad gyda'r aelodau. |
| **Argymhellion:**<br><br>***Recommendations:*** | Gofynnir i'r pwyllgor gymeradwyo ymateb y rheolwyr. |
| **Arweinydd Gweithredol:**<br><br>***Executive Lead:*** | Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus ac Arweinydd Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>***Report Author:*** | Carole Evanson, Cyfarwyddwr Gweithrediadau MHLD.<br>Adrianne Jones, Arweinydd Busnes Gweithredol MHLD. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwrpas yr adroddiad:**<br><br>***Purpose of report:*** | I'w Nodi<br>*For Noting*<br>☐ | I Benderfynu arno<br>*For Decision*<br>☐ | Am Sicrwydd<br>*For Assurance*<br>☒ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefel sicrwydd:**<br>***Assurance level:*** | Arwyddocaol<br>*Significant*<br>☐<br><br>Lefel uchel o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*High level of confidence/evidence in delivery of existing mechanisms/objectives* | Derbyniol<br>*Acceptable*<br>☒<br><br>Lefel gyffredinol o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*General confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Rhannol<br>*Partial*<br>☐<br><br>Rhywfaint o hyder/tystiolaeth o ran darparu'r mecanweithiau / amcanion presennol<br><br>*Some confidence / evidence in delivery of existing mechanisms / objectives* | Dim Sicrwydd<br>*No Assurance*<br>☐<br><br>Dim hyder/tystiolaeth o ran y ddarpariaeth<br><br>*No confidence / evidence in delivery* |

| | |
|---|---|
| **Cyfiawnhad dros y gyfradd sicrwydd uchod. Lle bo sicrwydd 'Rhannol' neu 'Dim Sicrwydd' wedi'i nodi uchod, nodwch gamau i gyflawni sicrwydd 'Derbyniol' uchod, a'r terfyn amser ar gyfer cyflawni hyn:**<br><br>***Justification for the above assurance rating. Where 'Partial' or 'No' assurance has been indicated above, please indicate steps to achieve 'Acceptable' assurance or above, and the timeframe for achieving this:*** | |
| **Cysylltiad ag Amcan/Amcanion Strategol:**<br><br>***Link to Strategic Objective(s):*** | Cynorthwyo â'r ymateb i'r Mesurau Arbennig |
| **Goblygiadau rheoleiddio a chyfreithiol:**<br><br>***Regulatory and legal implications:*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Yn unol â WP7, a oedd EqIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP7 has an EqIA been identified as necessary and undertaken?*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Yn unol â WP68, a oedd SEIA yn angenrheidiol ac a gafodd ei gynnal?**<br><br>***In accordance with WP68, has an SEIA identified as necessary been undertaken?*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Manylion am risgiau sy'n gysylltiedig â phwnc a chwmpas y papur hwn, gan gynnwys risgiau newydd (croesgyfeirio at y BAF a'r CRR)**<br><br>***Details of risks associated with the subject and scope of this paper, including new risks( cross reference to the BAF and CRR)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau ariannol o ganlyniad i roi'r *argymhellion ar waith***<br><br>***Financial implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Goblygiadau gweithlu o ganlyniad i roi'r argymhellion ar waith**<br><br>***Workforce implications as a result of implementing the recommendations*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Adborth, ymateb a chrynodeb dilynol ar ôl ymgynghori**<br><br>***Feedback, response, and follow up summary following consultation*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Cysylltiadau â risgiau BAF:**<br>(neu gysylltiadau â'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol)<br><br>***Links to BAF risks:*** | Nid yw'n berthnasol |

| | |
|---|---|
| *(or links to the Corporate Risk Register)* | |
| **Rheswm dros gyflwyno adroddiad i fwrdd cyfrinachol (lle bo'n berthnasol)**<br><br>***Reason for submission of report to confidential board (where relevant)*** | Nid yw'n berthnasol |
| **Camau Nesaf:**<br>Gweithredu argymhellion<br>***Camau Nesaf/Next Steps:***<br><br>Symud ymlaen â gweithredu Cynllun Gweithredu NCCU. | |

## Sesiwn Datblygu Pwyllgor BIPBC – QSE, 27 Hydref 2023.

## Adolygiadau Annibynnol Mesurau Arbennig - Ymateb y Rheolwyr

**Adolygiad Diogelwch Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG.**

### 1) Cefndir a chyd-destun

Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn codi statws ymyrraeth BIPBC i fesurau arbennig.

Roedd nifer o gwestau a digwyddiadau proffil uchel yn ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn y Bwrdd Iechyd wedi bod hefyd. Yn dilyn y digwyddiadau hyn, cododd y crwner nifer o bryderon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Pryderon ei bod wedi cymryd cryn amser i'r Bwrdd Iechyd ddiweddaru a darparu Cynllun Gweithredu mewn perthynas â marwolaeth claf, gyda'r fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Gweithredu yn dal i gynnwys camau gweithredu sydd heb eu cwblhau er bod y claf wedi marw dros ddwy flynedd yn ôl.

- Pryderon nad aethpwyd i'r afael yn gynt â'r hyn a ddysgwyd a'r camau sy'n deillio o'r cynllun gweithredu, gyda phryderon ychwanegol, os yw'r dysgu, y camau gweithredu a'r newidiadau yn cymryd cymaint o amser, yna mae risg y bydd marwolaethau'n parhau yn y cyfamser.

- Mae'r diffyg cyfeiriad strategol cyffredinol i ymchwiliadau a dysgu yn amlwg.

Yn ymateb i'r pryderon uchod ac fel rhan o'r ymyriad Mesurau Arbennig, comisiynwyd yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithredol y GIG gan Lywodraeth Cymru, i gynnal adolygiad ac arolygiad ansawdd a diogelwch ar y cyd o holl unedau cleifion mewnol Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Cynhaliwyd arolygiadau ar y cyd yn ystod mis Ebrill a Mai 2023, a derbyniwyd yr adroddiad gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2023. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys 8 o argymhellion.

Bu cydweithwyr o'r Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG yn y Pwyllgor QSE ar 15 Medi 2023 i gyflwyno a thrafod canfyddiadau'r adroddiad ar yr adolygiad.

## 2) Trosolwg o'r Sesiwn Ddatblygu

Cyflwynodd yr Uned Gomisiynu Cydweithredol Genedlaethol (NCCU) ac Adran Perfformiad a Sicrwydd Gweithrediaeth y GIG eu canfyddiadau o dan y tri phennawd canlynol:

- Arweinyddiaeth a Diwylliant
- Proses a Throsolwg
- Arsylwi'r Amgylchedd

Rhannwyd a thrafodwyd y negeseuon allweddol, a nodwyd wyth o argymhellion -

**Argymhelliad 1:**

- Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr holl staff perthnasol wedi'u hyfforddi'n briodol i gynnal asesiad risg achosion o glymu gan ystyried hyn fel rhan o'r broses adolygu gan gymheiriaid ar draws yr Uwch Adran. Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd a'r Uwch Adran hefyd sicrhau bod yr holl risgiau a nodwyd yn cael eu lliniaru, cyn gynted â phosibl.

**Argymhelliad 2:**

- Mae'n rhaid i'r Uwch Adran sicrhau bod prosesau ar waith i gadarnhau bod yr holl ddogfennaeth monitro iechyd corfforol yn cael ei chwblhau, fel y rhagnodir, gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i wneud hynny. Mae'n rhaid i'r Uwch Adran hefyd sicrhau bod unrhyw ddirywiad mewn materion iechyd corfforol cleifion yn cael ei ystyried o fewn amserlen briodol, gan y tîm amlddisgyblaethol (MDT).

**Argymhelliad 3:**

- Dylai'r Bwrdd Iechyd a'r Uwch Adran barhau i gryfhau'r trefniadau uwchgyfeirio a llywodraethu o'r Ward i'r Bwrdd, gan sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu cyfathrebu a'u holrhain yn glir hyd at eu cwblhau

**Argymhelliad 4:**

- Mae'n rhaid i'r Uwch Adran sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r polisïau a'r gweithdrefnau gweithredol mwyaf cyfredol ac yn eu dilyn, a bod staff yn parhau i fod yn wyliadwrus wrth eu gweithredu.

**Argymhelliad 5:**

- Dylai'r Uwch Adran sicrhau bod holl staff cleifion mewnol, gan gynnwys staff dros dro, wedi'u hyfforddi'n briodol i ddiwallu anghenion y cleifion, a bod yr holl staff yn ymwybodol o unrhyw feysydd risg posibl a'r camau i'w cymryd os canfyddir perygl neu risg.

**Argymhelliad 6:**

- Mae'n rhaid i'r Uwch Adran sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu anghenion presennol y cleifion sy'n cael eu derbyn i wasanaethau cleifion mewnol, a'r canlyniadau y bwriedir, gan gynnwys sut y mae rheoli risg a diogelwch yn ystod y cyfnod derbyn.

**Argymhelliad 7:**

- Dylai'r Uwch Adran barhau i gryfhau'r cyfleoedd i gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, teuluoedd a gofalwyr.

**Argymhelliad 8:**

- Dylai Llywodraeth Cymru a’r Bwrdd Iechyd ystyried adolygiad dilynol i sicrhau bod gwelliannau’n parhau i gael eu cynnal, a bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau neu wrthi’n cael eu cwblhau.

Mae'r camau gweithredu i fynd i'r afael â phob un o'r argymhellion uchod wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gweithredu'r NCCU ac maent wedi'u halinio â saith thema drawsbynciol fel y nodir yn Adran 3 isod.

## 3) Themâu Allweddol yr Adolygiad

Mae pob un o'r themâu cyffredinol yn berthnasol i'r adolygiad hwn, fel y dangosir yn y tabl. Mae Cynllun Gweithredu NCCU wedi cael ei fapio i'r wyth argymhelliad. Ategir hyn drwy sicrhau bod cyflawni'r camau gweithredu unigol hefyd yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a adlewyrchir yn y themâu. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cydweithio gyda Gwasanaethau eraill ar draws y sefydliad.

| Themâu yn deillio o'r adolygiadau a gafwyd hyd yn hyn | Perthnasol i'r adolygiad hwn<br>*Rhowch X yn y blwch os yw'n berthnasol* |
|---|---|
| **1. Data, Gwybodaeth a Mewnwelediad**<br>Sicrhau ein bod yn defnyddio dull sefydliad cyfan gan flaenoriaethu ymyriadau sy'n gwella ein hadnoddau a'n galluoedd data, gwybodaeth a mewnwelediad. Bydd hyn yn allweddol ar gyfer galluogi gwelliannau cynaliadwy yn ogystal â'n cynorthwyo i nodi gwasanaethau a allai beri pryder yn y dyfodol. | ☐ |
| **2. Diwylliant**<br>Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Ei integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu. | ☒ |
| **3. Rheoli Risg**<br>Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n hawydd at risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro. | ☒ |
| **4. Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr**<br>Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr i'r eithaf, gan ddefnyddio eu profiadau i arwain gwelliannau parhaus yn ein gwasanaeth. | ☒ |
| **5. Model gweithredu**<br>Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gydag eglurder i bawb ar bob lefel o'r sefydliad am rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn uwch adrannau a gwasanaethau PBC Gyfan. | ☒ |
| **6. Llywodraethu a chydymffurfiaeth yn y sefydliad**<br>Sicrhau gweledydd a dealltwriaeth am arferion gorau llywodraethu ar draws y sefydliad a sicrhau y cedwir atynt. | ☒ |
| **7. Cynllunio Integredig**<br>Agwedd integredig a ddeellir yn dda, at gynllunio fel disgyblaeth, yn ogystal â chyfraniadau at ein proses gynllunio flynyddol. | ☐ |

## 4) Argymhellion

Gofynnir i'r pwyllgor **GYMERADWYO** ymateb y rheolwyr yn barod i'w gyhoeddi yn y parth cyhoeddus.

**Tabl 1: Cynllun Gweithredu Thematig Ymateb y Rheolwyr**

## Cynnwys Cleifion, Teuluoedd a Gofalwyr

| Cyf. | **Cam Gweithredu:** Un dull cydgysylltiedig o gynnwys ac ymgysylltu â'n cleifion , eu teuluoedd a'u gofalwyr i'r eithaf, gan ddefnyddio eu profiadau i arwain gwelliannau parhaus yn ein gwasanaeth. | Argymhelliad Adroddiad NCCU/Gweithrediaeth y GIG Cyfeirnod | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | Darganfod a yw'r ddarpariaeth gofal yn ofalgar ac yn effeithiol a chytuno ar sut i fesur hyn. Cofnodi canfyddiadau a rhoi adborth ar ddiogelwch. | 3.6 | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **02** | Gyda chefnogaeth Tîm Profiad y Claf (PALS), adolygu profiad y claf/teulu o gynllunio diogelwch, yn yr ysbyty ac mewn triniaeth gartref. | 6.10 | Pennaeth Nyrsio pob Ardal | 30/04/24 | | Ar y trywydd cywir |
| **03** | Adolygu arfer gorau a'i fabwysiadu, a gwella mecanweithiau i gasglu a gweithredu ar adborth cleifion, teuluoedd a gofalwyr – gan gynnwys:<br>1) Ymgorffori casglu adborth ar dabledi/llechen mewn canolfannau tîm ac ardaloedd cleifion mewnol lle gwelir cleifion yn glinigol<br>2) Defnyddio data wrth ailgynllunio gwasanaethau<br>3) Ystyried adborth cleifion cenedlaethol drwy grŵp profiad Cleifion/Gofalwyr<br>4) Casglu tystiolaeth leol fel adborth PALS a sylwadau 'Gwenwch, Mae'n Ddydd Gwener' yn ystod teithiau crwydr. | 7.2<br>7.3<br>7.8<br>3.7 | Pennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig<br>Pennaeth Nyrsio | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **04** | Mae Tîm Profiad y Claf (PALS) a CANIAD, yn ymrwymo i gynnal adolygiad o'r dull presennol ac i argymell aliniad cryfach rhwng yr Uwch Adran a phrosesau corfforaethol Profiad Cleifion a Gofalwyr. | 7.1 | Pennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig | 30/04/24 | | Ar y trywydd cywir |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir, **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

## Llywodraethu a Chydymffurfiaeth yn y Sefydliad

| Cyf. | **Cam Gweithredu:** Sicrhau gwelededd a dealltwriaeth am arferion gorau llywodraethu ar draws y sefydliad a sicrhau y cedwir atynt. | Argymhelliad Adroddiad NCCU/Gweithrediaeth y GIG Cyfeirnod | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | Adolygu, adnewyddu, cyflawni, olrhain a dangos tystiolaeth o ddysgu sy'n gysylltiedig â'r meysydd cynefino a hyfforddi canlynol, ar gyfer staff PBC a staff banc:<br>1) Asesiad Risg Achosion o Glymu Amgylcheddol<br>2) Technegau cyfathrebu ar gyfer cleifion sy'n dirywio<br>3) Polisi diwedd oes<br>4) Asesu, monitro a chofnodi Iechyd Corfforol<br>5) Polisïau uwch adrannau<br>6) Diogelwch perthynol ac amgylcheddol<br>7) Cynllunio gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>8) Gofynion hyfforddi WARRN<br>9) Ymyrraeth Gorfforol Gyfyngol<br>10) Risg glinigol<br>11) Atal/ymwybyddiaeth hunanladdiad<br>12) Gwella ansawdd cynlluniau gofal a thriniaeth<br>13) Pwysigrwydd gweithio i'r polisïau a gweithdrefnau diweddaraf sydd wedi cael eu cadarnhau neu eu cymeradwyo | 1.1/1.2/1.3/1.4 a 1.6<br>2.7<br>2.12<br>2.14<br>4.5/4.6<br>5.1<br>5.2/5.3<br>5.2/5.5/6.1/6.2/6.8/6.9<br>5.6<br>2.1/5.9/6.3<br>6.4<br>5.2/5.3/6.8/6.11<br>4.1/4.3/4.5/4.6 | Pennaeth Cynorthwyol Nyrsio | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **02** | Rhaglen o wella a symleiddio archwilio, wedi'i hategu gan adnoddau newydd a fframwaith diwygiedig, sy'n bwydo i mewn i hyfforddiant a llywodraethu perthnasol, ar draws y meysydd canlynol:<br>1) Archwiliadau risg ansawdd a diogelwch/clinigol<br>2) Archwiliadau gan gymheiriaid o amgylcheddau cleifion mewnol<br>3) Monitro Iechyd Corfforol<br>4) Defnyddio Clozapine mewn Oedolion<br>5) Meddyginiaeth wrth-seicotig i Bobl Hŷn<br>6) Deall polisïau a chysondeb wrth eu cymhwyso<br>7) Cynlluniau diogelwch ar y cyd<br>8) Cynlluniau Gofal a Thriniaeth | 1) 2.1<br>2) 1.8/2.2<br>3) 2.4<br>4) 2.10<br>5) 2.11<br>6) 2.14<br>7) 6.7<br>8)5.2/5.3/6.8/6.11 | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio ac Arweinydd Prosiect Llywodraethu | 31/12/23 | | Ar y trywydd Cywir |
| **03** | Sicrhau bod Grwpiau allweddol (e.e. Grŵp Iechyd Corfforol, Grŵp Lleihau Risg Achosion o Glymu, Grŵp Dysgu a Gweithredu) yn gweithredu'n effeithiol, yn derbyn ac yn craffu ar y wybodaeth berthnasol a bod eu hadborth wedi'i raeadru trwy sianeli llywodraethu priodol | 1.6 | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio a Chyfarwyddwr Meddygol | 30/11/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **04** | Sicrhau bod cynllunio cyfalaf yn adlewyrchu mesurau lliniaru risg yr uwch adran a bod swyddogaethau ystadau gweithredol yn effeithiol ym mhob maes amgylcheddol a nodwyd. Gan gynnwys sicrhau bod cynlluniau yn eu lle ar gyfer wardiau i hyrwyddo diogelwch seicolegol/corfforol/rhywiol cleifion o ran cynllun/trefn a defnydd. | 1.7 | Pennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **05** | Adolygu a mabwysiadu arfer gorau a gwella llwybrau a phrosesau sy'n ymwneud â'r meysydd canlynol:<br>1) Llwybr Gofal Acíwt i gofnodi Asesiad Sylfaenol Iechyd Corfforol yn gywir<br>2) Rheoli ac uwchgyfeirio cleifion sy'n dirywio<br>3) Prosesau derbyn sy'n rhoi mynediad at weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol<br>4) Adrodd ar Datix, uwchgyfeirio digwyddiadau, cyfarfodydd gofal aciwt, sgrymiau diogelwch, PTR lleol, adrannol | 1) 2.5/6.5<br>2) 2.6<br>3) 2.18<br>4) 3.2<br>5) 3.9 | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 5) Dadansoddiad thematig parhaus o ddysgu a chamau gweithredu fel yng Nghynllun Gwella'r Uwch Adran<br>6) Cynllunio gofal a thriniaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau<br>7) Rheoli rhestr ddyletswyddau a threfniadau wrth gefn ac uwchgyfeirio | 6) 5.2/5.3<br>7) 5.7 | | | | |
| **06** | Adolygu, adnewyddu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframweithiau a'r polisïau allweddol canlynol:<br>1) Polisi Iechyd Corfforol, i gynnwys y claf sy'n dirywio<br>2) Fframwaith ar gyfer uwch arweinwyr sy'n gysylltiedig â wardiau | Argymhelliad 3<br>2.14<br>3.3 | Pennaeth Llywodraethu | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **07** | Sicrhau bod dogfennaeth a chofnodion priodol mewn perthynas â phob maes hollbwysig (e.e. risg clinigol a monitro iechyd corfforol) yn cael eu defnyddio a bod atebion system tymor byr priodol yn cael eu harchwilio | 5.9 | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio a Phennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **08** | Bydd adroddiad Sicrwydd y Cadeirydd gan Grŵp Dysgu a Gweithredu MHLD yn cael ei ddarparu i fforymau Llywodraethu Uwch Adrannau a Chorfforaethol priodol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Cynllun Gweithredu'r NCCU. | Argymhelliad 3<br>4.1 | Pennaeth Llywodraethu | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **09** | Gweithio gyda Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd i sicrhau amseroldeb cymeradwyo polisïau'r Bwrdd, gydag adroddiadau cynnydd misol i SQDG MHLD. | Argymhelliad 4<br>4.1 | Pennaeth Llywodraethu | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir, **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir.

## Diwylliant

| Cyf | **Cam Gweithredu:** Diffinio, ymgysylltu ac ymrwymo i'r gwaith hirdymor sydd ei angen i wella diwylliant y sefydliad. Ei integreiddio i'n cynllun datblygu sefydliadol ehangach ar draws Diwylliant, Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu. | **Argymhelliad Adroddiad NCCU/Gweithrediaeth y GIG Cyfeirnod** | **Arweinydd** | **Terfyn amser** | **Statws RAG[1]** | **Diweddariad ar gynnydd** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | 1) Mae angen ffurfioli'r broses o'r Ward i'r Bwrdd lle bo angen, gan gysylltu'r Fframwaith Llywodraethu a datblygu cylch adrodd.<br>2) Datblygu fframwaith clir a chynhwysfawr ar gyfer cysylltu uwch arweinwyr â wardiau<br>3) Gwella ymgysylltiad staff trwy gynyddu teithiau crwydr yr Uwch Dîm Arwain a chofnodi trafodaethau staff.<br>4) Ffurfioli gwelededd uwch arweinwyr yn yr ardal ac yn yr Uwch Adran ym meysydd adborth staff, cleifion a gofalwyr, trwy "broses taith grwydr" a hysbysebir gyda chofnod adborth ysgrifenedig mewn fformat "Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni".<br>5) Parhau i gyfathrebu 'polisi'r mis' yn y sesiwn friffio staff a sicrhau ei fod yn cael ei ddosbarthu i holl staff yr Uwch Adran.<br>6) Sicrhau bod staff ym mhob maes yn ymwybodol o leoliad y cyfeiriadur/compendiwm o Bolisïau Uwch Adran MHLD (Betsinet a Hwb MHLD). | 3.1<br>3.3<br>3.4<br>3.5<br>4.8<br>4.5 | Pennaeth Llywodraethu | 31/1/24 | | Ar y trywydd cywir |
| **02** | Adolygu sesiynau cynefino dechreuwyr newydd a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o bwysigrwydd polisïau cyfredol a'u bod yn gweithio yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau diweddaraf a gafodd eu cymeradwyo, a sicrhau y cedwir at y polisïau yn rhan o Ddiwrnod Cyswllt Staff. | 4.4 | Arweinydd Hyfforddi, Datblygu a Llesiant | 30/11/23 | | Ar y trywydd cywir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **03** | Nodi lleoliadau lle nad oes gan staff fynediad at Betsinet, a chyflwyno archwiliad polisi lle mae ffolderi polisi yn cael eu samplu a'u profi gan ddileu unrhyw amrywiadau, a themâu ar gyfer dysgu yn cael eu rhannu i sicrhau bod y fersiwn diweddaraf yn ei lle. | 4.7 | Pennaeth Llywodraethu | 31/12/23 | | Ar y trywydd cywir |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir, **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

## Rheoli Risg

| Cyf | **Cam Gweithredu:** Adolygu a mireinio ein hymagwedd a'n hawydd at risg, gan gynnwys sut mae risgiau'n cael eu nodi, eu rheoli, eu lliniaru, eu hadrodd a'u monitro. | Argymhelliad Adroddiad NCCU/Gweithrediaeth y GIG Cyfeirnod | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | Datblygu map proses/diagram llif yn manylu'n glir ar adrodd ar Datix, uwchgyfeirio digwyddiadau, cyfarfodydd gofal aciwt, sgrymiau diogelwch, PTR lleol ac uwch adran | 3.2 | Pennaeth Llywodraethu | 30/11/23 | | Ar y trywydd cywir |
| **02** | Cryfhau'r gwaith o fonitro cynlluniau gweithredu agored - Digwyddiadau Anffafriol Difrifol (SUI), Rheoliad 28, AGIC a sicrhau bod dysgu'n cael ei gyfathrebu drwy broses y cytunwyd arni a sicrhau bod adroddiadau'n cael eu hymgorffori yn y Fframwaith Llywodraethu | 3.8 | Pennaeth Llywodraethu | 31/1/24 | | Ar y trywydd cywir |
| **03** | Cefnogi dadansoddiad thematig parhaus o ddysgu a chamu gweithredu fel yng Nghynllun Gwella'r Uwch Adran 2023 | 3.9 | Pennaeth Llywodraethu | 31/1/24 | | Ar y trywydd cywir |
| **04** | Sicrhau bod anghenion hyfforddi'r holl staff asiantaeth, banc a locwm sy'n gweithio yn MHLD wedi nodi'n glir. | 5.6 | Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio | 30/4/24 | | Ar y trywydd cywir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Sicrhau bod hyn yn cynnwys sesiynau cynefino MHLD, monitro a chofnodi iechyd corfforol, Ymyrraeth Gorfforol Gyfyngol, codi a chario. | | | | | |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir, **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir

## Model Gweithredu

| Cyf | **Cam Gweithredu:** Sicrhau bod ein model gweithredu wedi'i gynllunio i gyflawni ein blaenoriaethau strategol, gydag eglurder i bawb ar bob lefel o'r sefydliad am rolau a chyfrifoldebau, systemau a phrosesau o fewn uwch adrannau a gwasanaethau PBC Gyfan. | Argymhelliad Adroddiad NCCU/Gweithrediaeth y GIG Cyfeirnod | Arweinydd | Terfyn amser | Statws RAG[1] | Diweddariad ar gynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **01** | Datblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer yr Uwch Adran er mwyn cryfhau cyfathrebu'r ddwy ffordd o'r Bwrdd i'r Ward ac i'r gwrthwyneb, gan gynnwys arweinydd cyfathrebu MHLD wrth alinio â phroses y Bwrdd Iechyd. | 4.0 | Pennaeth Strategaeth a Datblygu Integredig | 31.1.24 | | Ar y trywydd cywir |

[1] **Diffiniadau o statws RAG: Gwyrdd**: Ar y trywydd cywir, **Oren**: Ddim ar y trywydd cywir ond ceir mesurau lliniaru i sicrhau y daw'n ôl ar y trywydd cywir, **Coch**: Ddim ar y trywydd cywir a heb unrhyw fesurau lliniaru ar waith i ddod yn ôl ar y trywydd cywir